# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 8.11.13

**Yn bresennol**: Cyng. W. Tudor Owen, Cyng. Ann Williams, Cyng. Llywarch Bowen

**Hefyd yn bresennol:** PS483 Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru), Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Sheryl Le-Bon Jones (Rheolwr Systemau Gweithredol), Cyng. Huw Edwards a Lowri H. Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

--------------------------

**EITEM 1.**

**CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – PIZZA HOUSE, 53 FFORDD CAERGYBI, BANGOR**

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:** Ar ran Pizza House, 53 Ffordd Caergybi, Bangor**:** Sarah Sadeghi Namaghi (Deilydd y drwydded)

**Aelodau Lleol:** Cynghorydd June Marshall, Cyng Mair Rowlands

**Eraill**: Ms M A G Davies, Mr Keith Marshall, Mr Rhys Taylor, Mr John Martin,

**Ymddiheuriadau**: Dim i'w nodi

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais, Pizza House 53 Ffordd Caergybi, Bangor i wyro'r drwydded eiddo i ganiatáu ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol i ddarparu lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo. Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais gan Aelodau Lleol, Aelodau Unigol a Chyngor Dinas Bangor a phreswylwyr cyfagos. Gwrthwynebwyd y cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus oherwydd y posibilrwydd o gynnydd mewn sbwriel ac oherwydd bod sŵn o'r cerbydau sydd yn dosbarthu bwyd poeth wedi ei archebu dros y ffôn eisoes yn tarfu preswylwyr cyfagos. Mynegwyd pryderon yn ogystal y byddai ymestyniad mewn oriau yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn ac yn cyfrannu at yr aflonyddwch sydd ar gynnydd ym Mangor Uchaf.

Nid oedd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru, ond argymhellwyd cynnwys amodau ar y drwydded yn dilyn cytundeb â'r ymgeisydd mewn perthynas â theledu cylch cyfyng a goruchwylwyr drysau. Nid oedd y Gwasanaeth Tan ac Achub yn gwrthwynebu'r cais.

Safbwynt yr Heddlu yw ei bod hi yn briodol i holl drwyddedau eiddo gwerthu lluniaeth hwyr y nos ym Mangor fod yn gyfartal o ran oriau gweithgaredd trwyddedig, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nodir fod yr Heddlu yn gofyn am gynnwys amodau ar y drwydded parthed teledu cylch cyfyng a goruchwylwyr drysau. Nodir yn ogystal fod yr Heddlu yn cydnabod fod Bangor Uchaf yn ardal breswyl a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ymestyn yr oriau ar nos Wener a nos Sadwrn yn unig oherwydd hyn.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i grynhoi ei hachos. Hysbysodd ei bod yn cytuno â'r amodau a argymhellir gan yr Heddlu ac y buasai yn cyflogi goruchwyliwr ar y drysau pe bai'r drwydded yn cael ei chaniatáu. Nododd hefyd bod staff yn clirio sbwriel tu allan i'r eiddo ar ddiwedd y noson.

Adroddodd cynrychiolydd o'r heddlu mai tri digwyddiad yn unig sydd wedi eu derbyn am yr eiddo yn y pedair blynedd diwethaf - hyn yn amlygu bod yr eiddo yn cael ei reoli yn effeithiol. Amlygwyd bod goruchwyliwr drysau yn rhoi sicrwydd diogelwch ychwanegol i'r ardal. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen am oleuadau addas o fewn yr eiddo - deilydd y drwydded yn gyfrifol am ddarparu'r rhain.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad gan ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr:

Nodwyd yn benodol y pwyntiau canlynol –

- Gwrthwynebu'r cais oherwydd y niwsans cyhoeddus ar ymddygiad gwrthgymdeithasol a fyddai'n cael ei greu mewn ardal breswyl yn sgil ymestyn oriau agor yn hwyrach i ddarparu lluniaeth hwyr y nos.
- Deiseb wedi ei chasglu gyda 71 o drigolion lleol wedi ei arwyddo yn datgan gwrthwynebiad i'r cais.
- Cymdogion eisoes yn ymdopi gyda sŵn fan dosbarthu sydd yn mynd a dod o'r safle yn ystod oriau man y bore.
- Cynnydd tebygol mewn sbwriel ar y stryd, gerddi a llwybrau gan mai tuedd yw bwyta ar y stryd. Patrymau cymdeithasu yn newid.
- Pobl yn ymgynnull tu allan i'r eiddo tan oriau man y bore - hyn yn arwain at gynnydd mewn sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn effeithio ar fwynderau preswylwyr lleol.
- Patrwm yn datblygu fel rhan o broses – un cais yn cael ei gymeradwyo ac o ganlyniad eraill yn cael eu cyflwyno.
- Cais i wrando ar lais y trigolion lleol ac nid ar y busnesau - rhaid gwarchod y gymuned.
- Amlinellwyd nad oedd dim gwrthwynebiad i'r busnes. Y busnes yn cael ei redeg yn effeithiol iawn ac yn cynnig gwasanaeth canmoladwy.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr aelodau o'r farn y dylid caniatáu'r cais.
Rhesymau wedi eu rhestru isod:

- Nid oedd tystiolaeth o ddigwyddiadau penodol o drosedd ac anrhefn y mae modd eu priodoli i'r eiddo
- Nid oes tystiolaeth o ddigwyddiadau unigol o niwsans cyhoeddus ynghlwm â'r eiddo. Rhaid cael asesiad trylwyr o nifer, natur ac effaith digwyddiadau presennol o sŵn a sbwriel.
- Nid oedd y ddeiseb yn darparu tystiolaeth am ddigwyddiadau unigol o drosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus.
- Y cais, ynghyd ag amodau'r heddlu yn gydnaws ac amcanion trwyddedu

**PENDERFYNWYD**

- **Caniatau ymestyniad o awr ychwanegol, rhwng 23:00 a 03:30 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn yn unig ar gyfer gweithgaredd trwyddedig o ddarparu lluniaeth hwyr y nos;**

- **Ymgorffori i'r drwydded ddiwygiedig yr amodau a argymhellwyd gan yr Heddlu, ond bod yr amodau mewn perthynas â goruchwyliwr drws ADA (SIA) yn gymhwys yn unig i nos Wener a Sadwrn, am yr awr derfynol pan ganiateir gweithgareddau trwyddedig o dan y Drwydded hon.**

- **Derbyn holl argymhellion yr Heddlu fel ag y rhestrwyd isod:**

**a) Bod system teledu cylch cyfyng digidol yn cael ei osod ac yn gweithio i safon sy'n bodloni'r heddlu a'r awdurdod lleol a byddent yn monitro tu mewn a thu allan i'r adeilad.**
**b) Yn achos tu fewn i'r eiddo, bydd digon o gamerâu i recordio delweddau o'r holl le sydd ar gael i'r cyhoedd, ar wahân i'r toiledau.**
**c) Dylai goleuadau'r lleoliad fod o ansawdd da ac yn ddigon cryf i allu adnabod unigolion sy yn yr adeilad.**
**d) Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 31 diwrnod.**
**e) Pan fydd yr heddlu a'r awdurdod lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau, bydd y delweddau'n cael eu rhoddi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fyddai'r busnes yn gallu cydymffurfio â chais dan yr amod hwn, yna mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd y drwydded yn cael ei hadolygu.**
**f) Rhaid bod o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fydd yr eiddo ar agor.**
**g) Bod arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i dynnu sylw bod system teledu cylch cyfyng yn weithredol.**
**h) Y dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel er mwyn i'r heddlu allu eu harchwilio.**
**i) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir (gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi, os yn berthnasol).**
**j) Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Ar ôl cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**
**k) Bydd yr eiddo hwn yn cyflogi o leiaf un goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) bob nos Wener a nos Sadwrn, am yr awr derfynol pryd y caniateir gweithgareddau trwyddedig o dan y Drwydded hon.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol, benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn hysbysu gwrthwynebwyr o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**EITEM 2.**

**CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – LATE STOP, 13 FFORDD CAERGYBI, BANGOR**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:** Ar ran Late Stop: Mr Bipin Chanla a Cyng. Chris O'Neil

**Aelod Lleol:** Cyng June Marshall, Cyng Mair Rowlands

**Eraill**: Ms M A G Davies, Mr Keith Marshall, Mr Rhys Taylor, Mr John Martin

**Ymddiheuriadau**: Dim i'w nodi

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais Late Stop, 13, Ffordd Caergybi, Bangor LL57 2EG, gan deilydd y drwydded Melanie C Jones.
Cyflwynwyd y cais am ymestyniad i'r oriau gweithgareddau trwyddedig safonol. Mae'r eiddo yn darparu lluniaeth hwyr y nos a gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo. Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais gan Aelodau Lleol, Aelodau Unigol a Chyngor Dinas Bangor a phreswylwyr cyfagos. Gwrthwynebwyd y cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus oherwydd y posibilrwydd o gynnydd mewn sbwriel ac oherwydd bod sŵn o'r cerbydau sydd yn dosbarthu bwyd poeth wedi ei archebu dros y ffôn eisoes yn tarfu preswylwyr cyfagos. Mynegwyd pryderon yn ogystal y byddai ymestyniad mewn oriau yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn ac yn cyfrannu at yr aflonyddwch sydd ar gynnydd ym Mangor Uchaf.

Nid oedd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru, ond argymhellir cynnwys amodau ar y drwydded yn dilyn cytundeb â'r ymgeisydd mewn perthynas â goruchwylwyr drysau. Nid oedd sylwadau wedi dod i law gan yr Aelodau Lleol. Nid oedd y Gwasanaeth Tan ac Achub yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.
- Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Derbyniwyd copi o rybudd y wasg yn amlygu nad oedd yr elfen o alcohol yn cael ei grybwyll yn y rhybudd.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i egluro'r sefyllfa ac fe hysbysodd ei fod wedi derbyn cyngor gan y Chronicle ar gyflwyno rhybudd. Rhoddwyd y wybodaeth dros ffôn ac yna drwy ffacs.

Darllenwyd y rhybudd fel ag yr oedd wedi ymddangos yn y Chronicle 12.9.2013.

Amlygwyd bod rhaid i'r rhybudd fod yn gywir a throsedd i'r ymgeisydd fuasai gwneud cais ffug.

Gwnaed cais gan yr ymgeisydd i drafod elfen bwyd yn unig;
Gwrthodwyd ar sail bod y cais yn ddiffygiol ac felly bydd rhaid cyflwyno cais o'r newydd.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr aelodau o'r farn na ellid rhoi sylw pellach i'r cais.
Rhesymau dros y penderfyniad:

- Yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, mae gofyn bod y cais yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw mewn papur newydd (yn yr achlysur yma Chronicle 12.9.2013). Fodd bynnag, yn yr achos yma, roedd yr hysbyseb yn ddiffygiol gan nad ydoedd yn crybwyll bod y cais yn nodi diwygiad y drwydded i werthu alcohol.

- O ganlyniad, gan fod y cais yn ddiffygiol, nid oes gan yr Is-bwyllgor yr awdurdod i ystyried y cais heb son am wneud y penderfyniad i ganiatáu neu wrthod y cais.
- Cynrychiolydd wedi gwneud sylw i ystyried parhau â'r cais ar sail nad oedd cais am alcohol – diochwyd am yr awgrym, ond yn gyfreithiol, buasai peidio ystyried y cais yn ddiogelach.
- Anffodus bod yr hysbyseb yn ddiffygiol a derbyniwyd eglurhad mai gwall gweinyddol oedd y rheswm am hyn.
- Annog yr ymgeisydd i wneud cais o'r newydd.

**EITEM 3.**

**CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – SUBWAY, UNED 25, CANOLFAN DEINIOL, BANGOR, LL57 1NW**

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:** Mr Steven Potts (deilydd y drwydded)

**Aelod Lleol:** Dim yn bresennol

**Ymddiheuriadau**: Dim i'w nodi

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais Subway, Uned 25, Canolfan Deiniol,, Bangor LL57 1NW gan ddeilydd y drwydded, Steven Potts, 24 Segontium Terrace, Caernarfon LL55 2PH.

Cyflwynwyd y cais am ymestyniad i'r oriau gweithgareddau trwyddedig safonol. Mae'r eiddo yn darparu lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo a miwsig wedi ei recordio. Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais gan Cyngor Dinas Bangor. Gwrthwynebwyd y cais ar sail amcan trwyddedu atal trosedd ac anrhefn, a niwsans cyhoeddus. Nodwyd fod yr oriau arfaethedig yn mynd i arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn, yn ogystal â chynnydd mewn niwsans sŵn a sbwriel ar y stryd.

Nid oedd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru, ond argymhellir cynnwys amodau ar y drwydded yn dilyn cytundeb â'r ymgeisydd mewn perthynas â goruchwylwyr drysau. Nid oedd sylwadau wedi dod i law gan yr Aelodau Lleol. Nid oedd y Gwasanaeth Tan ac Achub yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.
- Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Nid oedd deilydd y drwydded yn bresennol yn y cyfarfod i ymhelaethu ar y cais.
Nid oedd cynrychiolaeth gan Cyngor Dinas Bangor yn y cyfarfod i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad.
Nid oedd unrhyw sylw wedi ei dderbyn gan yr Aelod Lleol

Cynrychiolydd ar ran yr Heddlu yn adrodd mai tri achos yn unig oedd wedi eu derbyn yn erbyn yr eiddo yn y pedair blynedd ddiwethaf..

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef -

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr aelodau o'r farn y dylid caniatáu'r cais.

**PENDERFYNWYD**
**Caniatáu gwyro trwydded eiddo – SUBWAY, UNED 25, CANOLFAN DEINIOL, BANGOR, LL57 1NW fel a ganlyn:**

- **Caniatáu hawl i ddeilydd y drwydded i agor hyd at 2:30 y bore, o ddydd Sul hyd nos Fercher, hyd at 3:00 y bore nos Iau a hyd at 3:30 y bore nos Wener a nos Sadwrn.**
- **Caniatáu hawl i ddeilydd y drwydded i agor am 7:00 y bore, saith bore'r wythnos.**
- **Caniatáu hawl i fiwsig wedi ei recordio cydweddu ag oriau agor.**
- **Derbyn holl argymhellion yr Heddlu fel ag y rhestrwyd isod:**
    - **a) Bod system teledu cylch cyfyng digidol yn cael ei osod ac yn gweithio i safon sy'n bodloni'r heddlu a'r awdurdod lleol a byddent yn monitro tu mewn a thu allan i'r adeilad.**
    - **b) Yn achos tu fewn i'r eiddo, bydd digon o gamerâu i recordio delweddau o'r holl le sydd ar gael i'r cyhoedd, ar wahân i'r toiledau.**
    - **c) Dylai goleuadau'r lleoliad fod o ansawdd da ac yn ddigon cryf i allu adnabod unigolion sy yn yr adeilad.**
    - **d) Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 31 diwrnod.**
    - **e) Pan fydd yr heddlu a'r awdurdod lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau, bydd y delweddau'n cael eu rhoddi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fyddai'r busnes yn gallu cydymffurfio â chais dan yr amod hwn, yna mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd y drwydded yn cael ei hadolygu.**
    - **f) Rhaid bod o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fydd yr eiddo ar agor.**
    - **g) Bod arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i dynnu sylw bod system teledu cylch cyfyng yn weithredol.**
    - **h) Y dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel er mwyn i'r heddlu allu eu harchwilio**
    - **i) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir, gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi, os yn berthnasol.**
    - **j) Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Wedi cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**
    - **k) Bydd yr eiddo hwn yn cyflogi o leiaf un goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) bob nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn am yr awr derfynol pryd y caniateir gweithgareddau trwyddedig o dan y drwydded hon.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol, benderfyniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd cyfarfod y bore am 10:40am a daeth i ben am 12:55pm

Dechreuodd cyfarfod y prynhawn am 2:00pm a daeth i ben am 2:45pm